**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16eg Tachwedd 2009**

## ADOLYGIAD O SYSTEM ATGYFEIRIADAU AR GYFER ARCHWILIADAU DIOGELWCH TÂN YN Y CARTREF

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Uwch Reolwr Diogelwch Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn eu derbyn gan Awdurdodau Lleol er 2007.

## Cefndir


2 Yn 2007, fe nododd Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân y dylai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fod yn gweithio'n agosach ag asiantaethau sy'n gweithio'n rheolaidd gyda phobl sy'n agored i berygl. Trwy sefydlu protocolau rhannu data gydag asiantaethau megis yr adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, y gobaith oedd cynyddu nifer y ceisiadau am Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref trwy'r asiantaethau hyn ar ran pobl sy'n agored i bergl na fyddai, o bosib, yn cysylltu â'r Gwasanaeth eu hunain i ofyn am gyngor a chymorth. Aeth y Gwasanaeth ati i ddatblygu ac arwyddo Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda phob Awdurdod Lleol yn y gogledd erbyn diwedd Chwefror 2008.

## Gwybodaeth

3 Yn 2007/8, nifer yr atgyfeiriadau a ddaeth gan asiantaethau oedd 2,410, sef 9% o'r Archwiliadau a gynhaliwyd. Erbyn 2008/9, roedd hyn wedi codi i 6,220, sef bron i 20% o'r 31,180 o archwiliadau a

gynhaliwyd. Mae hyn yn dangos bod y cysylltiadau partneriaethol, a'r protocolau rhannu data a wnaed ar lefel sirol rhwng pob Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth, yn creu mwy o atgyfeiriadau.

4 Mae'r graff isod yn dangos nifer yr atgyfeiriadau gan ardaloedd pob Awdurdod Lleol am flynyddoedd ariannol 2007/2008 a 2008/2009.




5 Dylid nodi y gallai'r ffigurau hyn fod heb eu datgan yn llawn; canfu tîm adolygu Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân yn ddiweddar fod nifer o'r atgyfeiriadau gan bartneriaid yn cael eu gwneud trwy'r rhif rhadffon, a heb fod yn cael eu cofnodi fel atgyfeiriadau gan bartneriaid, ac felly mae nifer yr atgyfeiriadau'n uwch.

## Y Dyfodol

6 Ar hyn o bryd, mae'r Uwch Reolwr Diogelwch Tân yn adolygu'r system atgyfeiriadau ar gyfer Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, ac mae'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, sy'n cael eu harwyddo gan bob Awdurdod Lleol, yn cael eu diweddaru. Bydd pob Rheolwr Diogelwch Sirol yn cysylltu â'r Prif Weithredwr yn eu hardaloedd i drefnu cyfarfod. Y nod yw gwella'r ddeialog a'r

cydweithredu gyda'r Awdurdodau Lleol partneriaethol, a thrwy hynny, gynyddu nifer yr atgyfeiriadau.

7 Lluniwyd pecyn hyfforddiant safonol ar gyfer asiantaethau partneriaethol, a bydd rhan o'r adolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnwys sicrhau bod y pecyn safonol yn cael eu ddarparu'n gyson i'r chwe Awdurdod Lleol. Hefyd, bydd methodoleg gyson o ran yr atgyfeiriadau i'w chael, a hynny er mwyn sicrhau bod pob atgyfeiriad gan asiantaethau yn cael ei nodi, a bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei chasglu er mwyn ein galluogi y Gwasanaeth i flaenoriaethu'r Archwiliadau, ac ymweld â'r rhai sydd mewn perygl yn gyntaf.

8 Bellach, mae gan y Gwasanaeth gronfa ddata ganolog, sef System Reoli Cofnodion Tân Farynor, a bydd hon yn gwella gallu'r Gwasanaeth i ddyrannu a monitro gwaith yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, a thros amser yn datblygu rhaglen o ail-ymweliadau i'r bobl sydd fwyaf agored i berygl yn y gogledd.

**Argymhelliad**

9 Bod yr Aelodau yn:
(i) nodi cynnwys yr adroddiad, a'r mesurau sy'n cael eu datblygu i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau gan Awdurdodau Lleol, a gwella'r system atgyfeirio;
(ii) cytuno fod cais yn cael ei wneud i'r chwe awdurdod lleol i adolygu eu perfformiad a'u cydweithrediad dan y protocol, a hynny trwy gyfarfod ar y cyd